## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **Mawrth 9fed 2023** |
| **Teitl:** | **Cofrestr Risgiau Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y Gofrestr Risgiau Corfforaethol** |
| **Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet** | **Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet ar gyfer Polisi, Perfformiad, Partneriaethau a Gwasanaethau Democrataidd** |

Rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor i roi gwybodaeth a sicrwydd parhaus bod y risgiau a nodwyd gan uwch reolwyr yn cael eu rheoli'n briodol. Mae hyn yn atgyfnerthu rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ran rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor bod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei rheoli'n briodol.

Mae Atodiad A yn cynnwys y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ddiweddaraf.

Fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Grŵp Arweiniol ar 1.2.23, mae risg newydd, R022: Recriwtio a Chadw wedi'i hychwanegu, gyda sgôr risg o 15.

Mae R003: Gwella a Pherfformiad Corfforaethol gyda sgôr risg barhaus o 6 wedi'i gostwng i risg gwasanaeth fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Grŵp Arweiniol ar 8.2.23. Mae'r Cyngor wedi dod dros ei hunanasesiad cyntaf yn llwyddiannus ac mae wedi pennu amcanion llesiant newydd. Mae cynllunio busnes wedi'i ailsefydlu'n llwyddiannus ers Covid ac mae'r bwrdd perfformiad yn cyfarfod yn rheolaidd. Ar ben hynny, cafodd y Grŵp Arweiniol adborth cadarnhaol ynglŷn â'r trefniadau perfformiad mewn cyfarfod â rheoleiddwyr ar Ionawr 16eg 23.

Yr unig risg sydd wedi newid sgôr yw R009: Rheoli Gwybodaeth a Chydnerthedd Seiberddiogelwch. Mae'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol wedi nodi cynnydd o 38% yn y tebygolrwydd ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn y DU ac felly mae sgôr y risg wedi'i diwygio i "debygol" i adlewyrchu hyn.

Mae cam lliniaru newydd wedi'i ychwanegu at R005: Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Mae'r holl risgiau eraill wedi'u hadolygu ac maent yn cynnwys Statws Coch Melyn Gwyrdd diwygiedig o gamau lliniaru a sylwebaeth wedi'i diweddaru.

**Argymhelliad: Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol sydd wedi'i diweddaru**

**Rheswm dros y penderfyniad: Sicrhau bod y Cyngor yn rheoli Risgiau Corfforaethol yn briodol yn unol â'r Strategaeth a'r Fframwaith Risgiau Corfforaethol**

**Atodiadau:** Atodiad A – Cofrestr Risgiau Corfforaethol

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)

**Swyddog Adrodd:** Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)

**Dyddiad: Chwefror 8fed 2023**

# Cofrestr Risgiau Corfforaethol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| | |
|---|---|
| Adolygwyd a diweddarwyd gan y Grŵp Arweiniol ar | 8/2/2023 |
| Y tro diwethaf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei monitro oedd | 21/09/2022 |
| I'w chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | 9/3/2023 |

# Cofrestr Risgiau Corfforaethol

## Cynnwys a Chrynodeb

| Teitl y Risg | Perchennog | Statws y Risg | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Sgôr | Statws | Tuedd |
| R004: Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl | Diana Davies | **15** | ■ | ➡ |
| R005: Cynllun Ariannol Tymor Canolig | Duncan Hall | **20** | ■ | ➡ |
| R006: Rhaglen Gydol Oed a Llesiant | James Starbuck | **15** | ■ | ➡ |
| R009: Rheoli Gwybodaeth a Chydnerthedd Seiberddiogelwch | Arwyn Morris | **12** | ● | ⬆ |
| R015: Cefnogi Busnesau Bwyd Lleol, Cynnal Diogelwch | Carwen Evans | **16** | ■ | ➡ |
| R017: Diogelu | Audrey Somerton-Edwards | **15** | ■ | ➡ |
| R018: Covid-19 | Alun Williams | **12** | ● | ➡ |
| R019: Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol/Llifogydd | Russell Hughes Pickering / Rhodri Llwyd | **25** | ■ | ➡ |
| R020: Clefyd Coed Ynn | Rhodri Llwyd | **20** | ■ | ➡ |
| R021: Ffosffadau | Russell Hughes-Pickering | **20** | ■ | ➡ |
| R022: Recriwtio a Chadw | Geraint Edwards | **15** | ■ | |

**Allwedd y Risg**

| | | |
|---|---|---|
| | Red | High Risk |
| | Amber | Medium Risk |
| | Green | Low Risk |

**Trend Key**


| | |
|---|---|
| | Risk score has increased |
| | No change to risk score |
| | Risk score has decreased |

# Risg Gorfforaethol R004 Parhad Busnes

## Perchennog: Rheolwr Corfforaethol Diana Davies


### Disgrifiad

Mae peidio â meddu ar gydnerthedd busnes neu ddelio â digwyddiadau brys yn debygol o effeithio'n fawr ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau hanfodol ac ar fywydau pobl yn ein cymunedau.




### Y Canlyniadau Posibl

Mae nifer o risgiau sefydliadol a risgiau i ddinasyddion yn gysylltiedig â threfniadau gwael ar gyfer parhad busnes a chynllunio ar gyfer argyfyngau sifil posibl gan y gallai gwasanaethau gael eu heffeithio yn ystod digwyddiadau, a gall digwyddiadau mawr fod â chanlyniadau uniongyrchol a hirdymor, gan gynnwys peidio â darparu gwasanaethau hanfodol, anafiadau/marwolaethau, hawlio iawndal, difrod i eiddo, sylw negyddol yn y cyfryngau, ac ymchwiliadau cyhoeddus.




### Tystiolaeth o'r Risg

Gall ymosodiadau meddalwedd wystlo amharu'n fawr ar ein gwaith a golygu llawer o amser adfer er mwyn ail-alluogi gwasanaethau hanfodol. Gall y digwyddiadau hyn fod yn rhai proffil uchel hefyd gan ennyn diddordeb eang yn gyhoeddus ac yn y cyfryngau. Wrth i'r rhan fwyaf o wasanaethau'r Cyngor gael eu darparu'n ddigidol ac o bell erbyn hyn (o ganlyniad i Covid), byddai'n arwain at ganlyniadau trychinebus i'n gallu i weithredu. Mae cynlluniau parhad busnes sydd wedi'u hymarfer a'u profi'n dda gennym ar gyfer senarios megis colli pŵer mewn adeiladau, llifogydd, boeleri neu'r pŵer yn methu, prinder tanwydd a digwyddiadau eraill sy'n gyfyngedig yn ddaearyddol, megis ar gyfer gwasanaethau unigol ac amserlenni gweddol gyfyngedig. Mae meddalwedd wystlo yn her arbennig oherwydd byddai'n amharu ar yr holl TGCh am gyfnodau amhenodol.

| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Maw | Meh | Medi | Rhag |
|---|---|---|---|---|---|
| R004T03: Sicrhau bod cyfarfodydd cynllunio parhad busnes mewnol yr awdurdod cyfan yn effeithiol | 31 Maw 2023 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R004T04: Datblygu, mireinio a phrofi cynlluniau Parhad Busnes | 31 Maw 2023 | ● | ● | ● | ● |
| R004T05: Cymryd rhan a chyfrannu at grwpiau cydlynu Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys, a diweddaru Cynlluniau Argyfwng | 31 Maw 2023 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R004T06: Sicrhau bod cyfarfodydd mewnol Seibergadernid yn effeithiol | 31 Maw 2023 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| 004T07: Adolygu Cynlluniau Argyfwng i sicrhau bod ymateb i ymosodiad meddalwedd wystlo yn cael ei gynnwys | 31 Maw 2023 | ● | ● | ● | ● |

### Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)

Mae'r grŵp Rheoli Parhad Busnes Argyfwng mewnol yn cyfarfod bob chwarter ac mae'n cael ei gadeirio ar hyn o bryd gan Ddeiliad Portffolio'r Cabinet ac mae Arweinydd y Cyngor yn mynychu. Yn ddiweddar, mae'r grŵp wedi trafod y risg o'r pŵer yn diffodd yn genedlaethol. Rhoddir ystyriaeth bellach a chamau gweithredu i'r mater hwn yn y cyfarfod nesaf yn dilyn Ymarfer Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys ganol Chwefror a bydd nifer o swyddogion y Cyngor yn cymryd rhan ynddo. Yn dilyn adolygiad archwilio mewnol ac argymhelliad, mae Cylch Gorchwyl y grŵp Rheoli Parhad Busnes Argyfwng wedi'i ddiwygio i gynnwys rolau a chyfrifoldebau unigolion allweddol.

Mae gan yr holl wasanaethau Gynlluniau Parhad Busnes cyfredol sy'n cael eu diwygio'n barhaus yn unol â thrafodaethau a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt o gyfarfodydd grŵp Rheoli Parhad Busnes Argyfwng. Mae fersiwn weithredol o'r Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol hefyd yn cael ei defnyddio ac yn cael ei diweddaru yn unol â newidiadau yng Nghynlluniau Parhad Busnes y Gwasanaethau gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddir gan bob Gwasanaeth.

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymwneud yn llawn â grwpiau niferus Fforwm Lleol Cymru Gydnerth megis: Grŵp Cydlynu Strategol, Grŵp Cydlynu a Hyfforddi, Parhad Busnes, Grwpiau Risg ac Iechyd. Mae Swyddogion yr awdurdod lleol hefyd yn cadeirio'r Grwpiau Adfer a Seiber a Seilwaith Digidol. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi cynorthwyo i ddiweddaru'r ddogfen ganllawiau Adfer o Ddigwyddiad Mawr a chynllun ymateb i argyfwng Cemegol, Biolegol, Radiolegol neu Niwclear. Disgwylir i'r ddau gynllun gael eu cadarnhau gan Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yn y flwyddyn newydd.

Mae cyfarfodydd misol y grŵp Cydnerthedd Seiber yn cael eu cynnal. Mae llawer yn dod i'r cyfarfodydd gydag agenda dda o eitemau yn cael eu trafod a chamau gweithredu cadarn yn cael eu rhoi ar waith. Mae adroddiadau ar y prif bwyntiau yn cael eu bwydo bob mis i'r Grŵp Arweiniol gan sicrhau bod llywodraethu yn ei le.


O ganlyniad i ymarfer ymosodiad seiber, mae swyddogion wedi llunio rhai enghreifftiau o gamau lliniaru ar gyfer gwasanaethau i'w cynorthwyo i ddatblygu eu hymateb arfaethedig eu hunain i fygythiad/digwyddiad Seiber yn eu Cynlluniau Parhad Busnes.

# Risg Gorfforaethol R005 Cynllun Ariannol Tymor Canolig

## Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Duncan Hall

### Disgrifiad

Bydd lleihau cyllid craidd a chyllid allanol yn arwain at ostyngiad yn y gwasanaethau a ddarperir mewn rhai meysydd. Bydd peidio ag addasu, gweithredu'r arbedion a nodwyd ac ystyried modelau gwahanol o ran darparu gwasanaethau yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol ac ar gyfrifoldebau ariannol y Cyngor.





### Y Canlyniadau Posibl

• Risg o beidio â chwrdd â'r terfynau amser o ran pennu'r gyllideb statudol. • Risg y bydd llai o adnoddau, llai o amser i roi newidiadau i wasanaethau ar waith, neu fethu â blaenoriaethu gwariant yn effeithiol yn unol â blaenoriaethau corfforaethol, yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau. • Risg na fydd y cynlluniau arbedion a nodwyd yn cael eu cyflawni yn ôl y bwriad. • Risg bod y gwaith o bennu'r gyllideb yn flynyddol yn rhwystro'r broses gynllunio ar gyfer y tymor hwy

### Tystiolaeth o'r Risg

Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Llywodraeth Cymru yn nodi arwyddion ariannu lefel uchel ar gyfer 2023/24 a 2024/25. Mae lefel cyllid allanol cyfun Llywodraeth Cymru wedi gostwng dros y blynyddoedd o tua 80% i lawr i ychydig dros 70% o'r gyllideb refeniw, gan roi mwy o faich ar gyllid a godir drwy Dreth y Cyngor. Mae diweddariad diweddaraf y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (Mawrth 2022) yn nodi angen posibl i arbed tua £15m erbyn mis Mawrth 2025. Er gwaethaf cael symiau mawr o arian untro ychwanegol yn 2020/21 a 2021/22 yn ystod COVID a phrif gynnydd o 8.9% yn y setliad ar gyfer 2022/23, mae rhagolygon y sector cyhoeddus yn edrych yn heriol yn seiliedig ar lefelau cyllid dangosol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol a gyhoeddwyd ar adeg Setliad Llywodraeth Leol 2022/23. Mae risgiau pwysau costau yn cynyddu, yn rhannol gysylltiedig â lefelau chwyddiant ar hyn o bryd (e.e., dyfarniadau cyflog staff ar gyfer 2022/23 a thu hwnt, costau Tanwydd, Ynni a Bwyd a chwyddiant cysylltiedig Contractwyr / Darparwyr). Mae effaith Costau Byw bellach yn ffactor allweddol, a gafodd sylw manwl iawn gan yr Aelodau yn ystod trafodaethau pennu'r Gyllideb a Threth y Cyngor 2022/23. Mae Rhaglen Arbedion Trawsnewid corfforaethol yn parhau i fod ar waith i sicrhau arbedion i gyfrannu at yr her ariannol ac mae'r Strategaeth Gydol Oed a Llesiant newydd hefyd yng nghyfnodau cynnar ei thaith weithredu. Bydd angen i'r Rhaglenni hyn gyflawni ar draws y tymor canolig, yn ogystal â pharhau i fanteisio ar gyfleoedd Buddsoddi i Arbed pan fyddant yn codi a defnyddio arian a neilltuwyd ar gyfer Hybu'r Economi yn ddoeth. Mae hanes cadarn blaenorol yn bodoli o fantoli Cyllidebau a sefyllfa gadarnhaol ar ddiwedd y flwyddyn o ran Alldro o fewn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae Mantolen y Cyngor ar 31/03/2022 yn gryf sy'n cyfrannu at gydnerthedd ariannol cryf. Yn ystod 2017/18, gostyngwyd y risg o 20 i 15 gan fod maint yr arbedion oedd angen eu gwneud i'r gyllideb yn lleihau, fodd bynnag, rhagwelir y bydd y pwysau o ran costau yn uwch nag yn y gorffennol.




| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Maw | Meh | Medi | Rhag |
|---|---|---|---|---|---|
| R005T01: Parhau â'r trefniadau o ran rheolaeth ariannol | 31 Maw 2023 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R005T03: Sicrhau bod arbedion effeithlonrwydd o ran trawsnewid a gwasanaethau yn cael eu datblygu a'u gweithredu | 31 Maw 2023 | ★ | ● | ● | ★ |
| R005T04: Diweddaru'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i adlewyrchu lefel ddangosol o 3.1% o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 24/25 | 30 Meh 2023 | | | | ● |

Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)

Mae'r sefyllfa bresennol o 22/23 yn ystod y flwyddyn yn parhau i fod yn heriol yn bennaf oherwydd y cytunwyd ar ddyfarniadau cyflog sydd bron ddwywaith y lefel a gyllidebwyd yn wreiddiol. Yn ogystal, mae effaith chwyddiant i'w gweld mewn sawl gwasanaeth (e.e. Tanwydd, contractau Trafnidiaeth, Deunyddiau). Mae amryw o gamau lliniaru dros dro yn cael eu cymryd i reoli'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn ac yna mae'r gyllideb sylfaenol yn cael ei hail-alinio ar gyfer dyfarniadau cyflog 22/23 fel rhan o broses pennu Cyllideb 23/24.

Yna cafwyd Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Dros Dro Llywodraeth Cymru ar 14/12/22, a roddodd gynnydd cyllid o 8.1% (£9.6m) ar gyfer 23/24. Er bod hon yn sefyllfa well, gyda £22.2m o bwysau o ran Costau (cyfwerth â chyfradd chwyddiant o 13.4%), mae hynny'n dal i adael £8.9m o Arbedion y Gyllideb i'w darganfod a rhai ystyriaethau Treth y Cyngor anodd i Aelodau ddelio â'r diffyg sy'n weddill yn y gyllideb. Mabwysiadwyd agwedd newydd at Arbedion y Gyllideb sy'n cynnwys adolygiad o benawdau cyllideb Corfforaethol (£2.9m wedi'i gynnig) a Rhaglen Arbedion aml-flwyddyn newydd o'r enw 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Gweithredu Corfforaethol' wedi'i gweithredu (£3.1m wedi'i gynnig).

Mae heriau sylweddol o'n blaenau, gyda Llywodraeth Cymru yn nodi cyllid Setliad Cyllid Llywodraeth Leol 24/25 o 3.1% yn unig ar gyfartaledd (a fyddai'n rhoi £4m ychwanegol). Mae cyflwyniadau cyflogau undebau ar gyfer 23/24 hefyd yn dal i fod yn uchel ar 12.7% ar gyfer staff cyffredinol, er mai dim ond megis dechrau y mae trafodaethau. Bydd y rhain a ffactorau eraill yn cael eu hadlewyrchu mewn Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddaru a bydd y canlyniad yn arwain at her ariannol sylweddol yn y tymor canolig.

# Risg Gorfforaethol R006 Rhaglen Gydol Oed a Llesiant


**Perchennog: Cyfarwyddwr Corfforaethol James Starbuck**


## Disgrifiad

Mae'r Rhaglen Gydol Oed a Llesiant wedi'i sefydlu a'i datblygu i drawsnewid y ffordd y bydd y Cyngor yn darparu gwasanaethau Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn cyd-fynd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Felly bydd y rhaglen yn goruchwylio datblygiad gwasanaethau a thrawsnewid gofal cymdeithasol. Bydd methu â chyflawni hyn yn creu risg y bydd yr awdurdod yn peidio â bodloni ei ofynion statudol a deddfwriaethol a'r heriau a wynebir gyda'r pwysau cynyddol ar gyllidebau gofal cymdeithasol.

Mae'r Rhaglen Gydol Oed a Llesiant yn symud ymlaen i ddatblygu a gweithredu trefniadau gwasanaethau a strwythur staffio i gefnogi'r pwyslais ar wasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan. Bydd angen rheoli'r risgiau a'r cyfleoedd a allai ddeillio o ail-gydbwyso gwasanaethau.




## Y Canlyniadau Posibl

• Anallu i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol ar draws pob oed
• Colli cyfleoedd i ddatblygu cymunedau cydnerth a gofalgar • Cynnydd parhaus yn yr hyn sy'n cael ei wario i ddarparu gwasanaethau sydd â chost uchel • Anallu i fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau • Heb fodloni dyletswyddau statudol a gofynion deddfwriaethol

## Tystiolaeth o'r Risg

• Pwysau parhaus ar gyllidebau gofal cymdeithasol • Cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n derbyn gwasanaethau statudol ar gyfer gofal a chymorth wedi'i gynllunio • Angen darparu gwasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan yn unol â deddfwriaeth • Cyfnod hir o 'Broses rheoli newid' yn effeithio ar y gweithlu • Anawsterau wrth gadw a recriwtio staff

| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Maw | Meh | Medi | Rhag |
|---|---|---|---|---|---|
| R006T01: Cyflwyno adroddiadau i'r bwrdd prosiect ynglŷn â'r cynnydd a wneir o ran gweithredu'r model newydd ar gyfer gwasanaethau. | 31 Medi 2023 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R006T03: Sicrhau bod rhaglenni Adnoddau Dynol/y Gweithlu yn cael eu rhoi ar waith yn unol â'r gweithdrefnau rheoli newid | 31 Maw 2023 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R006T05: Craffu'n rheolaidd ar y cyllidebau a'r goblygiadau ariannol o ran gweithredu'r model newydd. | 31 Maw 2023 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R006T07: Cyfathrebu Gydol Oed a Llesiant i'w gytuno a'i weithredu | 30 Medi 2023 | | ★ | ★ | ★ |

## Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)


Cynnydd parhaus gyda Chynllun Gweithredu Gydol Oed a Llesiant a chyda'r ffrydiau gwaith penodol. Mae'r rhan fwyaf o'r ailstrwythuro wedi'i gwblhau ac mae bellach wedi'i ymgorffori fel rhan o'r model. Mae'r gydran derfynol (Gwasanaethau Uniongyrchol) yn mynd rhagddi ac mae ymgynghoriad â rhanddeiliaid gwasanaethau i'w gynnal yn Ch1 2023/24.
Tra bod y model Gydol Oed a Llesiant yn lleihau'r tebygolrwydd o risg, mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan y galw ar wasanaethau sy'n parhau i dyfu. Yn bwysig, mae Swyddogion yn parhau i gynnal gwasanaeth diogel. Mae recriwtio ar draws yr holl dimau staff yn heriol iawn, gan adlewyrchu'r darlun cenedlaethol yng Nghymru a ledled y DU. Felly mae recriwtio a chadw yn parhau i fod yn ffocws allweddol ac rydym yn parhau i hyfforddi gweithwyr cymdeithasol newydd bob blwyddyn ac yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu cyrsiau addysgol lleol gyda phartneriaid Addysg Uwch yn y Sir. Mae Uwch Swyddogion yn monitro cynnydd trwy Fwrdd Rhaglen Gydol Oed a Llesiant bob mis yn ogystal â'r holl Swyddogion allweddol yn cyfarfod bob wythnos.

# Risg Gorfforaethol R009 Rheoli Gwybodaeth a Chydnerthedd Seiberddiogelwch

## Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Arwyn Morris


### Disgrifiad

Bydd peidio â sicrhau bod gennym drefniadau gwybodaeth, TGCh, diogelwch a chydymffurfiaeth yn eu lle yn effeithio ar allu'r Awdurdod i addasu i newid, gwella ei wasanaethau, a chyfathrebu mewn modd effeithiol â dinasyddion ac unigolion eraill sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor.




### Y Canlyniadau Posibl

Bydd peidio â chael systemau seiberddiogelwch cadarn ar waith yn effeithio ar ddarparu pob gwasanaeth, gan olygu na fydd mynediad neu fynediad cyfyngedig at systemau gwybodaeth sy'n allweddol ar gyfer cyflenwi busnes. Gallai prosesau Rheoli Gwybodaeth annigonol ac ymwybyddiaeth annigonol staff mewn perthynas â rheoli data personol arwain at gamddefnyddio/golli data, a gallai hynny olygu peidio â chydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a gall beri gofid i'r sawl y mae ei ddata wedi cael ei gamreoli. Bydd peidio â rheoli'r holl ddata mewn modd sy'n unol â'r gyfraith yn arwain at ddirwy fawr bosibl gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac yn tanseilio enw da yr Awdurdod. Bydd darparu gwasanaethau digidol yn cynyddu'r galw am wasanaethau TGCh ac ymosodiadau seiber posibl, a rhaid cael adnoddau digonol ar gyfer hyn o ran costau staffio a seilwaith.




### Tystiolaeth o'r Risg

• Ni chafodd dim digwyddiadau mawr o fygythiadau seiber allanol eu hadrodd ac mae mân ymosodiadau wedi cael eu rheoli heb golli gwasanaeth • Mae pob seilwaith TGCh yn parhau i gael ei chywiro i'r lefel ofynnol, a llwyddwyd i sicrhau'r achrediad Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus. • Ni roddwyd gwybod am unrhyw achos mawr o golli data i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. • Mae cyrsiau ymwybyddiaeth o wybodaeth yn parhau i gael eu cynnal, yn ogystal ag arferion o gydweithio mewn modd rhagweithiol â meysydd gwasanaethau er mwyn sicrhau bod eu data yn cael ei gadw mewn modd diogel a phriodol. • Bu'r staff yn bresennol mewn hyfforddiant seiber i sicrhau ein bod dal gennym lefel dda o ddiogelwch wrth i'r risgiau o ymosodiad o'r tu allan gynyddu. • Cydymffurfir â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a chynnal Hysbysiadau Preifatrwydd a sicrhau cydsyniad lle bo angen.

| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Maw | Meh | Medi | Rhag |
|---|---|---|---|---|---|
| R009T04: Parhau ag Archwilio Data ar draws pob maes gwasanaeth | 31 Maw 2023 | | ★ | ★ | ★ |
| R009T05: Gweithredu amserlen cadw cofnodion a gymeradwywyd | 31 Maw 2023 | | ★ | ★ | ★ |
| R009T06: Cefnogi pob maes Gwasanaeth i ddatblygu cynlluniau parhad Busnes Seiberddiogelwch | 31 Maw 2023 | | ★ | ★ | ★ |

### Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)

Mae'r cynllun ffeil newydd wedi'i gymeradwyo ac wedi'i fabwysiadu ac mae mwyafrif y cofnodion presennol bellach wedi'u categoreiddio o dan y cynllun ffeil newydd. Parheir i gynnal archwiliad data ac mae gwaith paratoi bellach wedi'i wneud i symud y cofnodion digidol i strwythur rheoli cofnodion O365 o systemau rheoli cofnodion presennol.

Mae Ceredigion wedi cynnal Asesiad Ymwybyddiaeth Seiber a noddir gan Lywodraeth Cymru ac mae'r asesiad wedi amlygu rhai newidiadau angenrheidiol i gryfhau Seiberddiogelwch y Cyngor.

Mae'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol wedi nodi cynnydd o 38% yn y tebygolrwydd o ymosodiad seiber ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn y DU, felly mae'r sgôr risg wedi'i diwygio i "debygol" ar gyfer y tebygolrwydd o ymosodiad seiber.

Mae'r Awdurdod yn meincnodi ei sgôr diogelwch yn erbyn cyrff cyhoeddus tebyg eraill fel rhan o drefniant Microsoft O365. Mae Ceredigion wedi cael "Sgôr Ddiogel" ar gyfartaledd o 60% dros y 12 mis diwethaf o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 46%. Mae hyn yn dangos bod y mesurau diogelwch presennol a roddwyd ar waith yn dda iawn, ond rhaid i ni barhau i wella ein diogelwch technegol a'n hyfforddiant ar gyfer staff, sef y risg fwyaf ar gyfer unrhyw ymosodiad yn y dyfodol.

# Risg Gorfforaethol R015 Cefnogi Busnesau Bwyd Lleol, Cynnal Diogelwch

**Perchennog: Rheolwr Corfforaethol Carwen Evans**

## Disgrifiad


Gall peidio â chynnal arolygiadau digonol a chyson o safleoedd risg uchel, nac arolygiadau amserol o safleoedd newydd, olygu bod busnesau yn cael cymorth annigonol a allai arwain at safonau gwaeth, gan effeithio ar y busnes ei hun a'r economi leol. Os na fydd y Cyngor yn bodloni ei gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, gallai hynny arwain at risg o danseilio ei enw da.


## Y Canlyniadau Posibl

Mae'r prif ganlyniadau ar gyfer y Cyngor yn rhai gwleidyddol, a allai danseilio'i enw da ac arwain at wasanaethau gwaeth i fusnesau a'r effaith ar ddinasyddion y Sir. Gwenwyn bwyd yw'r prif risg a allai o bosibl gael effaith ddifrifol ar ddinasyddion. Gallai hyn arwain at adroddiadau rheoleiddio gwael, ymyrraeth a cholli hyder mewn sector busnes pwysig, a allai effeithio ar fywiogrwydd a hyfywedd yr economi leol.

## Tystiolaeth o'r Risg

Ataliwyd, dros dro, arolygiadau o safleoedd bwyd yn ystod cyfnod cychwynnol y pandemig, ac er bod yr arolygiad o safleoedd risg uchel a safleoedd newydd wedi ailddechrau, mae ôl-groniad sylweddol o arolygiadau i'w cynnal. Mae recriwtio staff cymwys o ran bwyd hefyd yn her sylweddol. Roedd pandemig Covid19 wedi peryglu gallu'r Cyngor i gynnal ei raglen arolygu arferol. Mae swyddogion profiadol Iechyd yr Amgylchedd wedi cael eu hadleoli i wneud gwaith sy'n gysylltiedig â Covid megis cynghori cartrefi gofal preswyl ar reoli'r haint ac olrhain cysylltiadau. O ganlyniad, dim ond busnesau newydd a busnesau risg uchel yr ymwelir â hwy a'r busnesau hynny lle mae cwynion neu sy'n ymwneud â gwybodaeth am safonau gwael o ran diogelwch bwyd. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei hailadrodd ledled Cymru, ac mae'r Awdurdod Safonau Bwyd wedi cyhoeddi cynllun adfer sy'n amlinellu dychweliad graddol i bob awdurdod lleol ddychwelyd i raglen arolygu lawn. Mae'r Cyngor yn gweithio i gyrraedd y cerrig milltir a amlinellir yn y cynllun adfer.




| Camau Lliniaru | Maw | Meh | Medi | Rhag |
|---|---|---|---|---|
| R015T02: Blaenoriaethu sefydliadau bwyd yr ystyrir eu bod yn risg uchel a/neu ddim yn cydymffurfio | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R015T06: Uwchsgilio staff presennol i fod yn gymwys i gynnal arolygiadau diogelwch bwyd | ● | ● | ● | ★ |
| R015T07: Cynnal ymarfer caffael i gyflogi contractwyr arbenigol i ddarparu adnoddau ychwanegol | ● | ● | ● | ★ |
| R015T10: Arolygu pob sefydliad bwyd yn unol â cherrig milltir cynllun adfer yr ASB | | ● | ● | ● |

## Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)

Mae dau Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd profiadol yn parhau i gael eu hadleoli i roi cyngor arbenigol ar reoli a throsglwyddo Covid-19 mewn lleoliadau risg uchel megis cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio yng Ngheredigion. Fodd bynnag, maent wedi dychwelyd yn rhan amser i'w swyddi parhaol gan roi cymorth i'r tîm gyflawni dyletswyddau gorfodi diogelwch bwyd.
Mae'r gwasanaeth yn parhau i arolygu sefydliadau bwyd yn unol â Chynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cynhaliwyd cyfanswm o 99 o arolygiadau hylendid bwyd risg uchel yn ystod y chwarter diwethaf. Hefyd, cynhaliwyd 13 o ail-ymweliadau statudol â'r safleoedd hynny nad oeddent yn cydymffurfio i gadarnhau bod y gwelliannau gofynnol wedi'u cyflawni'n foddhaol. Mae pob busnes newydd yn cael asesiad risg gan sicrhau bod y rhai sy'n cyflwyno fel busnesau risg uchel yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiad. Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd ar y trywydd iawn i gyrraedd y garreg filltir nesaf yn fras yn y cynllun adfer; fodd bynnag, mae'r tîm yn profi llwyth achosion uchel o ran gorfodi mewn disgyblaethau eraill o fewn Diogelu'r Cyhoedd.
Mae'r gwasanaeth hefyd wedi rhoi hyfforddiant ac wedi datblygu dau swyddog newydd i gynnal arolygiadau bwyd risg uchel. Mae'r ddau wedi bodloni gofynion cymhwysedd y Cod Ymarfer ac maent bellach yn cefnogi'r tîm trwy gynnal arolygiadau bwyd risg uchel. O'r herwydd, mae 8 swyddog sy'n gymwys mewn bwyd bellach yn gallu cynnal arolygiadau bwyd, ac mae 2 swyddog arall wrthi'n cael eu hyfforddi. Disgwylir i'r cyntaf

o’r 2 swyddog hynny basio eu hasesiadau proffesiynol tua mis Mehefin 2023.
Mae dau gontractwr bwyd arbenigol arall wedi'u cyflogi i gefnogi'r gwasanaeth i gyrraedd targedau cynllun adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
Mae cynllun gwasanaeth yn cael ei ddatblygu ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-2024 gan gymryd i ystyriaeth y datblygiadau sylweddol yn y gwasanaeth yn y 12-18 mis diwethaf.


# Risg Gorfforaethol R017 Diogelu


**Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro Audrey Somerton-Edwards**

| Disgrifiad |
|---|
| Risg o fethiant i gynnal dyletswyddau statudol y sefydliad mewn perthynas â diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion yn ystod y cyfnod pontio i'r Model Darparu Gwasanaethau Integredig. |

| Y Canlyniadau Posibl |
|---|
| Mae risg y gallai plant, pobl ifanc ac oedolion ddioddef niwed sylweddol a allai arwain at effaith andwyol ar enw da'r corff corfforaethol ynghyd ag effaith gyfreithiol ac effaith ariannol. |

| Tystiolaeth o'r |
|---|
| • Cynnydd mewn atgyfeiriadau oherwydd newidiadau deddfwriaethol (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) ac effaith Covid-19 ar unigolion a grwpiau sy'n agored i gamdriniaeth ac esgeulustod • Cynnydd yn y galw a chymhlethdod yn benodol o ran plant a theuluoedd a phobl ifanc • Cydnabyddir bod hwn yn faes gwaith sydd â risg uchel |




| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Maw | Meh | Medi | Rhag |
|---|---|---|---|---|---|
| R017T06: Cynnal Tîm Diogelu Gydol Oed wedi'i Integreiddio'n llawn | 31 Maw 2023 | | ● | ● | ● |
| R017T07: Sicrhau bod hyfforddiant diogelu a datblygiad sgiliau yn cael eu cyflwyno i'r holl staff | 31 Maw 2023 | | ● | ● | ● |
| R017T08: Gweithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer Rhanbarthol ar draws pob tîm | 31 Maw 2023 | | ● | ● | ● |
| R017T09: Monitro/rhoi gwybod yn rheolaidd am bryderon/gweithgareddau diogelu i fforymau diogelu | 31 Maw 2023 | | ★ | ★ | ★ |
| R017T10: Cyfranogiad gweithredol yng ngweithgareddau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol o bob rhan o'r model | 31 Maw 2023 | | ★ | ★ | ★ |

**Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)**

Wrth i'r Model Gydol Oed a Llesiant aeddfedu, ceir gwell dealltwriaeth o sut mae angen cefnogi'r gymuned i leihau'r cynnydd mewn risg a niwed posibl. Cymerwyd camau pendant a chamau adfer i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gydymffurfio, a bod gwasanaeth diogel yn cael ei ddarparu i'r plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed yng Ngheredigion.
Mae cynlluniau ar waith i sicrhau bod strategaeth glir ar gael i recriwtio a chadw gweithlu parhaol sefydlog i ddarparu'r holl wasanaethau statudol a gwasanaethau llesiant sydd eu hangen ar y gymuned i aros yn ddiogel ac yn iach.

# Risg Gorfforaethol R018 Covid-19

## Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Alun Williams

**Disgrifiad**


Effaith lledaeniad y pandemig byd-eang Covid 19 ar iechyd dinasyddion, gan gynnwys y galw cynyddol ar wasanaethau'r Cyngor ac effaith y cyfnodau clo a'r llacio wrth i bolisi'r Llywodraeth newid yn gyson, yr economi ehangach a llesiant dinasyddion y Sir.


**Y Canlyniadau Posibl**

Lefelau uchel o'r haint, salwch difrifol a marwolaethau ychwanegol ymhlith y boblogaeth ynghyd â dirywiad sylweddol yn yr economi, amharu'n eang ar ddarparu gwasanaethau, a niwed i lesiant personol. Bydd hyn yn cael effaith ar gyflenwi a chynaliadwyedd gwasanaethau'r Cyngor a'r gallu i ymateb i'r argyfwng economaidd a'r heriau eraill a grëwyd o ganlyniad i'r pandemig, a'r effeithiau anuniongyrchol ar y gallu i ymateb i argyfyngau nad ydynt yn ymwneud â Covid. Ar ôl y pandemig, mae hefyd risg o ôl-groniadau mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan arwain at ragor o anawsterau iechyd a gofal cymdeithasol a phroblemau lles i'r boblogaeth. Mae'n debygol y bydd mwy o wrthdaro rhwng gwahanol fodelau ymateb i'r pandemig.

**Tystiolaeth o'r Risg**

Dechreuodd cyfnod clo yn y DU ar Fawrth 23ain 2020 a digwyddodd ddwywaith wedi hynny. Caeodd y Cyngor ei swyddfeydd, ei ysgolion a'i gyfleusterau. Mae gwasanaethau wedi ailddechrau ar ôl i gyfyngiadau ddod i ben. Mae'r sector gofal preswyl wedi gweld mesurau'n cael eu llacio ac mae achosion o heintio wedi lleihau mewn difrifoldeb o ganlyniad i frechu rheolaidd a straen llai difrifol o Covid. Mae ein disgyblion ysgol wedi wynebu tarfu sylweddol ar eu haddysg. Hyd yn hyn, mae Ceredigion wedi osgoi lefel uchel o farwolaethau. Fodd bynnag, mae dyfodiad amrywiolion newydd wedi cymhlethu pethau ac yn destun pryder a'r risg fwyaf sy'n ein hwynebu. Costau uwch a llai o incwm yn deillio o Covid19. Ad-dalodd Llywodraeth Cymru y mwyafrif helaeth o'r costau hyd at fis Mawrth 2022 a rhoddodd swm llai o gyllid ar gyfer 202223. Nid oes dim cyllid pellach wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf, ar wahân i gyllid cyfyngedig ar gyfer Profi ac Olrhain. Er bod absenoldebau staff yn gymharol isel oherwydd staff yn gweithio o gartref i ryw raddau, bu cynnydd anochel yn y llwythi gwaith gan ein bod yn y cyfnod adfer. Mae'n ymddangos bod y lefel uchel o frechu yng Ngheredigion wedi lliniaru effaith afiechyd difrifol. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod y tonnau omicron o'r haint yn dal i ddigwydd yn rheolaidd ond nid yw'n arwain at lefelau uchel o broblemau iechyd gwanychol neu farwolaethau. Mae Cymru mewn "cyflwr sefydlog", sy'n golygu bod llawer o wasanaethau yn ôl i fusnes fel arfer, fodd bynnag, erys ôl-groniadau sylweddol mewn rhai gwasanaethau. Er bod mwyafrif y cyfyngiadau wedi dod i ben, mae'r risg o amrywolion pellach yn parhau'n uchel.




| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Medi | Rhag | Maw | Meh |
|---|---|---|---|---|---|
| R018T01: Cydymffurfio a chefnogi trefniadau Cyfnod Clo Cenedlaethol a Lleol yn llawn | 31 Maw 2023 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R018T03: Cymryd rhan lawn mewn trefniadau rhanbarthol o ran ymateb i argyfwng ac adfer | 31 Maw 2023 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R018T04: Cyfathrebu effeithiol gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid Ceredigion | 31 Maw 2023 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R018T07: Cefnogi'r economi a busnesau lleol drwy bob cam o'r pandemig | 31 Maw 2023 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R018T08: Gweithio gydag eraill i gynnal profion, olrhain cysylltiadau a brechiadau torfol | 31 Maw 2023 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R018T09: Gweithredu rhaglen effeithiol o gymorth a hyfforddiant lles staff | 31 Maw 2023 | ★ | ★ | ★ | ★ |

Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)


Mae Covid yn parhau i fod yn risg i'r gymuned ac i'r Awdurdod. Er bod y feirws Omicron yn llai difrifol na rhai o'i ragflaenwyr, mae wedi profi i fod yn fwy trosglwyddadwy, ac mae cyfraddau wedi bod ar eu lefelau uchaf yng Ngheredigion. Yr arwyddion diweddaraf yw bod y don Omicron ddiweddaraf yn cilio'n raddol. Mae'r camau lliniaru a gymerwyd gan yr Awdurdod a'i bartneriaid wedi cael effeithiau cadarnhaol o ran lleihau effaith y pandemig, gyda chyflwyno'r brechu cyfnodol yn arbennig o effeithiol. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ill dau wedi llacio rheoliadau ac mae bron pob cyfyngiad wedi'i godi, gan arwain at ailgyflwyno gwasanaethau'r Cyngor. Mae cyllid o'r llywodraeth wedi'i gwtogi'n sylweddol e.e. mae ein tîm olrhain cysylltiadau wedi lleihau o wyth deg aelod o staff i saith. Mae polisi'r Llywodraeth wedi cydnabod bod y coronafeirws wedi symud o bandemig i sefyllfa endemig, lle mae'n rhaid i ni fyw gyda'r feirws yn cylchredeg yn ein cymunedau a'n gweithleoedd. Serch hynny, erys risg a disgwyliad y bydd amrywiolyn newydd yn ymddangos a allai fod yn fygythiad difrifol i iechyd y cyhoedd.

# Risg Gorfforaethol R019 Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd

**Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Russell Hughes-Pickering / Rhodri Llwyd**


## Disgrifiad

Newid hinsawdd yw un o'r heriau amgylcheddol mwyaf a wynebwn. Er y bydd peidio â chyrraedd targedau lleihau allyriadau carbon ac ynni yn cael effaith ariannol ac amgylcheddol i'r Awdurdod, ceir goblygiadau ehangach ar gyfer y Sir gyfan, e.e. mwy o achosion o lifogydd, sychder a stormydd, a allai gael effaith enfawr ar ein cymunedau ac ar ystâd y Cyngor sy'n cynnwys ein hadeiladau, ysgolion, Gwarchodfeydd Natur, Parciau, rhandiroedd a hefyd daliadau eraill nad ydynt wedi'u rheoli'n weithredol.
Cydnabyddir bod rhaid i ni arwain trwy esiampl a gwneud popeth y gallwn ei wneud i leihau newid hinsawdd yn y dyfodol, a rhoi sylw i'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn a'u lliniaru. Rhaid datblygu mentrau polisi a strategaethau sy'n cynnwys cydnerthedd ecosystemau, gwelliannau bioamrywiaeth a chynlluniau lleihau llifogydd a'u gweithredu os ydym am lwyddo i leihau ein hôl troed carbon a lleihau'r risg i'n prif seilwaith, asedau, trigolion, cymunedau a thirwedd.




## Y Canlyniadau Posibl

Mae newid hinsawdd yn golygu y byddwn efallai'n wynebu digwyddiadau tywydd amlach neu fwy difrifol megis llifogydd, sychder a stormydd. Gyda'r digwyddiadau hyn daw 'risgiau ffisegol' sy'n cael effaith uniongyrchol ar gymunedau ac effaith bosibl ar yr economi. Mae rhannau o forlin Ceredigion yn agored i erydu arfordirol a llifogydd, ac mae rhai cymunedau mewndirol mewn perygl o lifogydd a cholli tir o gyrsiau dŵr. Gallai'r effeithiau fod yn bellgyrhaeddol, gyda rhanddeiliaid yn wynebu canlyniadau sy'n bygwth bywyd neu'n newid bywyd, gydag effaith ar rannau mawr o'r Sir/Cyngor.
Yn ogystal, gallai peidio â lleihau effeithiau newid hinsawdd gael canlyniadau o ran enw da, canlyniadau ariannol ac amgylcheddol ar gyfer y Cyngor, gan gynnwys ar ffurf cosbau ariannol am beidio â chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli carbon a bioamrywiaeth.
Bydd effeithiau anuniongyrchol yn cynnwys newidiadau i bryfed, plâu a chlefydau a fydd yn cytrefu ac yn effeithio ar ein hamgylchedd. Yn ogystal ag effeithiau uniongyrchol y rhain, bydd yr effeithiau ar amser staff a chostau eraill i ddelio â hyn yn sylweddol.
Mae colli brigdwf oherwydd clefyd coed ynn eisoes wedi cael canlyniadau ar gyfer microhinsoddau lleol a bydd yn gwaethygu effeithiau newid hinsawdd yn ogystal â chyfrannu atynt.




## Tystiolaeth o'r Risg

Mae newid hinsawdd yn realiti ac yn digwydd ar draws y byd; mae'n cael effaith ar gymunedau lleol yng Ngheredigion. Mae Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru a Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Ceredigion wedi nodi lleoliadau yn y Sir sydd mewn perygl nawr ac a fydd mewn perygl yn y dyfodol oherwydd erydu arfordirol a llifogydd, a llifogydd o brif afonydd/cyrsiau dŵr/dŵr wyneb. Mae tystiolaeth wyddonol yn dangos er mwyn atal newid hinsawdd rhaid atal allyriadau carbon – nid yw eu lleihau yn ddigonol, mae'n rhaid i ni fynd ymhellach a gweithio tuag at fod yn awdurdod lleol sero-net.

| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Maw | Meh | Medi | Rhag |
|---|---|---|---|---|---|
| R019T01: Datblygu Strategaeth Newid Hinsawdd Corfforaethol | 31 Maw 2023 | ● | ● | ● | ● |
| R019T03: Cynyddu faint o ynni a gynhyrchir trwy ffynonellau adnewyddadwy. | 31 Maw 2023 | ● | ★ | ★ | ● |
| R019T04: Nodi a rheoli'r ystâd gorfforaethol | 31 Maw 2023 | ★ | ★ | ★ | ● |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| R019T05: Datblygu Cynlluniau Lleihau Llifogydd | 31 Maw 2023 | ● | ● | ● | ● |
| R019T06: Monitro'r arfordir gyda Chanolfan Monitro Arfordirol Cymru, datblygu Amddiffyniad yr Arfordir | 31 Maw 2023 | ● | ★ | ★ | ★ |
| R019T08: Gwneud cais am arian i weithredu prosiectau sy'n lliniaru effaith newid hinsawdd | 31 Maw 2023 | | ● | ● | ● |
| R019T09: Datblygu Strategaeth ULEV Gorfforaethol, Cynllun Gweithredu a rhaglen gyflenwi cyfalaf | 31 Maw 2023 | | ★ | ★ | ★ |
| R019T10: Adolygu a chyhoeddi Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol a rhaglen gyflenwi cyfalaf cysylltiedig | 31 Maw 2023 | | ★ | ★ | ★ |

## Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)

Nid yw'r adnoddau ar gyfer datblygu Strategaeth Newid Hinsawdd Gorfforaethol wedi eu hadnabod eto, er bod nifer o ffrydiau gwaith yn barod a fydd yn cyfrannu at hwn/darn o waith yn y dyfodol. e.e. Strategaeth Ynni Rhanbarthol a Chynllun Gweithredu Ynni (wrthi'n cael eu datblygu), a Chynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol i'w cyflawni yn 2022/23.
Mae Allyriadau 2021/22 yn cael eu cyfrifo ar hyn o bryd gan fod ychydig o oedi cyn rhyddhau canllawiau adrodd newydd Llywodraeth Cymru, felly rhagwelir y bydd y ffigurau allyriadau blynyddol yn barod erbyn diwedd Awst/dechrau Medi.
Mae Cynllun Gweithredu Sero Net wedi'i ddiweddaru yn cael ei baratoi a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Tachwedd, a bydd hwn yn cynnwys allyriadau cyffredinol (cwmpas 1, 2 a 3), yn ogystal â rhoi diweddariad ar y cynnydd hyd yma.
Mae Strategaeth Cerbydau Allyriadau Isel Iawn drafft Ceredigion wedi'i datblygu gyda chymorth ymgynghoriaeth a bwriedir ei chyflwyno i'r Grŵp Rheoli Carbon a'r Newid yn yr Hinsawdd (20/06/2022) ac yna ei hystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus (27/07/2022) yn gofyn am argymhelliad i'r Cabinet (06/09/2022) i'w mabwysiadu.
Mae Cam 1 y rhaglen gosod mannau gwefru cyhoeddus – a ariennir drwy grant Llywodraeth Cymru a gosod mewn meysydd parcio cyhoeddus wedi'i amserlennu i gael ei gwblhau erbyn mis Awst 2022.
Mae cais llwyddiannus wedi'i wneud ar gyfer Cam 2 y rhaglen i'r Swyddfa Dim Allyriadau am gyllid grant, ac rydym ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad o arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru (25% o gyfanswm cost y cynllun).
Sicrhawyd cyllid o £300k yn ystod y Flwyddyn Ariannol hon drwy grant cyfalaf a weinyddir gan CLlLC gan Lywodraeth Cymru i gefnogi trawsnewid fflyd cerbydau'r Cyngor ei hun a'r gofynion seilwaith cysylltiedig – ond mae'n amlwg nad yw hyn yn ddigon i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol.
Cyflwynwyd Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol ar 31/03/2022 yn dilyn adolygiad o fapiau presennol ac ymgynghoriad cyhoeddus, ac sy'n aros am gymeradwyaeth gan Weinidogion ar hyn o bryd. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cael grant o £500k o'r Gronfa Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru/Trafnidiaeth Cymru ym Mlwyddyn Ariannol 2022/23 ar gyfer datblygu cynlluniau a phrosiectau ar raddfa fach. Sicrhawyd grant cyfalaf Llwybrau Diogel mewn Cymunedau i ariannu datblygiad cynllun yn Llanrhystud i alluogi plant i gerdded, beicio a sgwtera i'r ysgol yn ddiogel.
Mae cais yn cael ei baratoi i'w gyflwyno i Lywodraeth y DU ar gyfer 'Llwybr Cylch y Cardi' o dan Gronfa Ffyniant Bro 2 i uwchraddio a darparu rhannau newydd ar gyfer uwchraddio Llwybr Ystwyth (Aberystwyth i Dregaron) a Llwybr Aeron (Aberaeron i Felin-fach) a rhannau newydd. Yn dilyn ymlaen o'r gwaith strategaeth ynni rhanbarthol a wnaed yn flaenorol, mae Tyfu Canolbarth Cymru wedi gwneud gwaith i ddatblygu cynllun gweithredu ynni rhanbarthol, sydd bellach ar ffurf drafft ac yn aros am adborth/sylwadau gan Geredigion a Phowys. Mae gwaith i ddatblygu Cynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol wedi dechrau, gyda gweithdy rhanddeiliaid cychwynnol yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf. Bydd gwaith pellach yn parhau gyda'r nod o Gynllun Ynni Ardal Leol Ceredigion ar ffurf drafft erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022/23.
Mae Ceredigion yn dal i weithio'n agos gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau posibl i leihau allyriadau, gan gynnwys aráe ffotofoltäig ychwanegol yn Ysgol Bro Teifi, a hefyd y posibilrwydd o newid cynllun system gwresogi ardal Penmorfa, gan fod y gosodiad presennol bron yn 20 mlwydd oed. Hefyd cyflwynwyd Datganiad o Ddiddordeb i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid posibl yn benodol ar gyfer datgarboneiddio gwres mewn adeiladau, cynigiwyd 33 o adeiladau i gyd a rhagwelir y bydd y cyfnod ymgeisio am grant yn agor tua diwedd mis Awst. Ni wyddys ar hyn o bryd beth fydd y gofynion, faint o arian fydd ar gael, nac a fydd angen arian cyfatebol – byddwn yn asesu unwaith y bydd y broses ymgeisio yn agor.
Mae cynllun i osod PV dros y maes parcio yng Nghanolfan Rheidol wedi ei ddatblygu a'i gyflwyno am ganiatâd cynllunio ar ddiwedd 2021/22, mae gan y cynllun hwn y potensial i leihau costau trydan y safle hyd at £25,000 y flwyddyn ar brisiau cyfredol, os bydd prisiau trydan yn parhau i godi, gallai'r arbediadau fod yn sylweddol fwy.
Mae Gweithgor Newid Hinsawdd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried datgarboneiddio gwres yn Aberystwyth ac mae cynllun system gwresogi ardal bosibl a fyddai'n rhoi gwres a dŵr poeth i adeiladau yn y Brifysgol, Ysbyty Bronglais ac Ysgol Uwchradd Penglais yn mynd rhagddo. Dylai'r ddogfen ddrafft ddod i law erbyn mis Medi 2022.
Mae prisiau ynni'n codi'n sylweddol, rydym wedi cael ein hamddiffyn rhywfaint rhag prisiau trydan a nwy hyd yn hyn, fodd bynnag rydym yn rhagweld codiadau sylweddol ar Hydref 1af ar adeg cynnydd pris blynyddol y contract. Mae'r cynnydd hwn mewn prisiau yn golygu bod yr achos busnes dros ddefnyddio ynni'n effeithlon a lleihau allyriadau yn well nag erioed, fodd bynnag mae gan y costau uwch y potensial i gael effaith ganlyniadol ar ddarparu gwasanaethau.
Mae grant Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol wedi'i gymeradwyo ar gyfer rhaglen ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2022/23, gyda chynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer Cynllun Lliniaru Llifogydd Pentref Llandre - Achos Cyfiawnhad Busnes; Cynllun Lliniaru Llifogydd Camlas y Borth – Achos Cyfiawnhad Busnes; Achos Busnes Amlinellol Capel Bangor; ac Achos Busnes Amlinellol Tal-y-bont.
Gwnaed cais am ganiatâd cynllunio a thrwydded forol mewn perthynas â Chynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron, a chwblhawyd ymarfer tendro adeiladu, a disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau ddiwedd hydref 2022, tra bod achosion busnes yn cael eu datblygu ar gyfer y cynlluniau posibl yn Aberystwyth, y Borth a Llangrannog.
Mae Canolfan Monitro Arfordirol Cymru yn parhau i arolygu'r arfordir amddiffynedig ar ran Cyngor Sir Ceredigion, ac mae eu defnydd o dechnoleg yn cynyddu maint a chywirdeb data nag y gellir ei gasglu.


# Risg Gorfforaethol R020 Clefyd Coed Ynn

**Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Rhodri Llwyd**

## Disgrifiad


Clefyd coed ynn yw'r clefyd coed mwyaf arwyddocaol i effeithio ar y DU ers clefyd llwyfen yr Isalmaen, a bydd yn arwain at ddirywiad a marwolaeth oddeutu 90% i 95% o goed ynn yn y DU, ac mae coed ynn yn gyffredin ar draws Ceredigion. Mae hyn yn cynnwys ar gyrion coetiroedd ar ffurf gwrychoedd a choed sbesimen ar hyd ffyrdd, hawliau tramwy cyhoeddus eraill ac mewn mannau agored cyhoeddus. Mae'r haint clefyd coed ynn yn achosi i'r coed freuo, colli canghennau ac yn y pen draw gallent gwympo. Mae'r newidiadau strwythurol i'r pren mewn coed ynn sy'n marw yn cynyddu'n sylweddol y risg o'r coed yn cwympo.

Mae clefyd coed ynn eisoes yn cael effaith ar y brigdwf ar draws y sir. Amcangyfrifir bod 42,000 o goed ynn aeddfed ar hyd y ffyrdd sirol yn unig, a 10,000 pellach ar Ystâd Gorfforaethol y Cyngor. Gan gymryd bod dwysedd tebyg o goed ynn ar draws yr holl dir cyhoeddus a phreifat arall, gan gynnwys coetiroedd a gwrychoedd, mae effaith a gaiff colli coed oherwydd clefyd coed ynn dros y 5 mlynedd diwethaf a dros y 5 mlynedd nesaf ar ôl troed carbon Ceredigion, y microhinsawdd ac effeithiau lleol ar newid hinsawdd yn sylweddol.




## Y Canlyniadau Posibl

Ceir posibilrwydd parhaus ar gyfer marwolaeth neu anafiadau o ganlyniad i ddigwyddiadau cysylltiedig â chlefyd coed ynn, gan gynnwys risgiau i swyddogaethau statudol neu ddarparu gwasanaethau, gyda phroblemau iechyd a diogelwch cynyddol oherwydd dirywiad coed ynn ar ffyrdd, parciau gwledig, ystadau tai, ysgolion, llwybrau beicio, llwybrau ceffylau a llwybrau troed. Cynnydd yn y gwariant o gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol o ganlyniad i Glefyd Coed Ynn. Bydd allyriadau carbon o goed sy'n cwympo/angen eu symud yn cael effaith ar darged carbon sero-net 2030 y Cyngor, a bydd angen paratoi rhaglen blannu sylweddol dros y degawd nesaf i wneud iawn am y coed ynn a gollwyd. Bydd yr ecosystemau a ddarperir gan goed ynn yn cael eu colli, e.e. ansawdd aer, lleihau llifogydd, cysgodi trefol, cynnydd mewn lefelau sŵn a cholli sgriniau gweledol gyfagos â'r priffyrdd, storio carbon, atafaelu carbon a chynefin ar gyfer bioamrywiaeth, a risgiau i rywogaethau/safleoedd a warchodir trwy newid a cholli strwythur, sefydlogrwydd a chyfansoddiad cynefinoedd.




## Tystiolaeth o'r Risg

Mae clefyd coed ynn eisoes yn gyffredin ac yn weladwy ar draws y Sir. Mae canllaw cenedlaethol ar gyfer asesu coed sydd â'r clefyd, gan ddefnyddio system yn seiliedig ar y ganran o frigdwf byw, wedi cael ei sefydlu ac yn cael ei ddefnyddio i benderfynu pryd y mae angen gweithredu i roi sylw i'r risgiau sy'n codi yn sgil dirwyniad coed. Argymhellir y dylid gweithredu pan fydd oddeutu 50% o'r goron yn weddill. Oherwydd graddfa cwblhau arolwg ar draws yr holl goed sydd ym mherchnogaeth y Cyngor, mae dull blaenoriaethol o weithredu wedi cael ei ddatblygu i sicrhau bod yr ardaloedd risg uchel yn cael eu harolygu gyntaf. I gyflawni hyn mae dadansoddiad risg ansoddol wedi cael ei gwblhau sy'n ystyried y tebygolrwydd o gael anaf a difrifoldeb ar gyfer pob gwasanaeth yn yr awdurdod y nodwyd y bydd yn debygol o gael ei effeithio gan glefyd coed ynn. Rhoddwyd ystyriaeth i newidynnau megis y nifer amcangyfrifedig o goed ynn, y nifer amcangyfrifedig o ddefnyddwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac o ran cyflymder a gweledded ar y priffyrdd. Mae Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn yn amcangyfrif y gallai'r cyfanswm cost i'r Cyngor ar gyfer rheoli'r risg o glefyd coed ynn fod tua £9.4m dros gyfnod o 10 mlynedd, a bydd angen £20m pellach i ddelio â choed ynn ar dir preifat.

| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Maw | Meh | Medi | Rhag |
|---|---|---|---|---|---|
| R020T04: Ymgymryd â chynllun gwaith â blaenoriaeth i docio/symud coed fel y bo angen | 31 Maw 2023 | ● | ★ | ★ | ● |
| R020T05: Ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru a chyfleoedd cyllid eraill i roi sylw i'r risg | 31 Maw 2023 | ● | ● | ● | ■ |
| R020T06: Ymgymryd â rhaglen waith gychwynnol ar goed yr effeithiwyd arnynt gan glefyd coed ynn mewn ysgolion. | 30 Medi 2022 | | ★ | ✔ | ✔ |
| R020T07: Cynnal arolwg mewnol o ardaloedd blaenoriaethol ar gyfer 2022 fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn | 30 Medi 2022 | | ★ | ✔ | ✔ |
| R020T08: Comisiynu arolwg ffyrdd A, B, C a ffyrdd Diddosbarth fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn | 30 Tach 2022 | | ★ | ★ | ✔ |

## Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)


Mae fframwaith newydd y contractwyr gyda chaffael ar hyn o bryd, ac mae opsiynau i ddefnyddio contractau presennol y fframwaith sydd eisoes yn eu lle gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill yn cael eu dilyn er mwyn symud materion yn eu blaen.
Bydd gwaith ar goed ar dir ysgol yn cychwyn yn fuan drwy fframwaith presennol Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a fydd yn digwydd yn ystod gwyliau ysgol yr haf, a’r dyddiad cwblhau yw Medi’r 5ed 2022.
Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo mewn perthynas â rhoi hysbysiadau ffurfiol i dirfeddianwyr/rheolwyr sy’n gyfrifol am goed ar dir preifat lle mae’r coed hyn yn peri risg i eiddo sy’n eiddo i’r Cyngor (e.e., ysgolion) o dan Adran 23 (Darpariaethau Amrywiol) Deddf Llywodraeth Leol 1976 yn ei gwneud yn ofynnol i perchennog i fynd i'r afael â'r problemau o fewn cyfnod penodedig.
Mae gwaith ar goed ar ymyl y ffordd sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael ei flaenoriaethu ar hyn o bryd yn ôl risg, gyda gwaith ar goed blaenoriaeth uchel a’r rheini ar lwybrau blaenoriaethol i'w wneud gan ddefnyddio fframwaith presennol Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru cyn gynted â phosib nes bod fframwaith newydd y cyngor yn dod ar-lein.
Mae gwaith yn parhau i ddod o hyd i berchnogion coed ar ymyl y ffordd sydd mewn perchnogaeth breifat, ac yna cyhoeddir hysbysiad ffurfiol o dan Adran 154 Deddf Priffyrdd 1980 yn gofyn i'r perchennog fynd i'r afael â'r problemau o fewn cyfnod penodol o amser. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ochr yn ochr â chyfarwyddo perchnogion coed preifat yr ystyrir eu bod yn risg i'r cyhoedd/traffig lle maent yn hongian dros y briffordd.
Mae'r un dull o weithredu yn cael ei ddefnyddio ar gyfer coed sy'n cael eu dwyn i'n sylw gan ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd ac mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ochr yn ochr â gwaith arolygu coed a nodwyd.
Mae contract arolygu ar gyfer ffyrdd A, B, C a ffyrdd Diddosbarth wedi’i ddyfarnu i’r contractwr a gynhaliodd yr arolwg clefyd coed ynn blaenorol o ffyrdd A a B ac Ysgolion yn 2021 er mwyn cynnal parhad data/dull gweithredu.
Mae arolwg 2022 ar fin cychwyn.
Mae sefydliadau fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru am gyllid/cymorth, ond prin yw’r cynnydd sy’n cael ei wneud - bydd y Swyddog Clefyd Coed Ynn yn gwneud mwy o waith i nodi cyfleoedd i leihau costau a sicrhau'r elw mwyaf o waith tynnu coed/canghennau.

# Risg Gorfforaethol R021 Ffosffadau

## Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Russell Hughes-Pickering


### Disgrifiad

Ym mis Ionawr 2021 cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru dystiolaeth o lefelau ffosffadau ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru (gan gynnwys Afon Teifi) ynghyd â chyfarwyddyd safbwynt cynllunio dros dro (wedi'i ddiweddaru Mai 2021).
Y Cyngor yw'r awdurdod cymwys fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau Cynefinoedd ac mae'n ofynnol iddo roi sylw i'r cyngor wrth wneud penderfyniadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ac o ran y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).
Mae effaith ffosffadau ar 50% o'r Ganolfan Gwasanaeth Trefol a 14% o'r Ganolfan Gwasanaeth Lleol a ddynodwyd yn y CDLl. Cyfanswm y tir a effeithir yng Ngheredigion yw 806 km2 / 44.6% o'r sir. Gallai 14 o safleoedd tai a neilltuwyd ddarparu 572 o gartrefi ac o'r rhain disgwylir i 114 ohonynt fod yn rhai fforddiadwy. Mae problemau arwyddocaol o ran datblygu yn yr ardal hon. Disgwylir i'r ardal a effeithir gynyddu pan fydd gwybodaeth a chyfarwyddyd pellach yn cael eu rhyddhau mewn perthynas ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol.




### Y Canlyniadau Posibl

Mae'n debygol iawn y bydd datblygu ar draws y Sir yn cael ei gyfyngu'n fawr hyd nes y gall mesurau gael eu rhoi ar waith i liniaru effeithiau maethynnau ar amgylcheddau afonol a morol. Gallai hyn gyfyngu ar allu'r Cyngor i ddarparu prif elfennau ei Strategaeth Gorfforaethol, y Strategaeth Economaidd, y Cynllun Datblygu Lleol, Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a chyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol allweddol.
Disgwylir i'r sefyllfa waethygu pan fydd data yn ymwneud ag asesiadau Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol yn cael eu rhyddhau yn 2022 a fydd â goblygiadau mawr ar gyfer gweddill y Sir.




### Tystiolaeth o'r Risg

Mae monitro maethynnau gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi sefydlu nad yw 8 o'r 16 gorsaf fonitro ar Afon Teifi yn cwrdd â'u targedau a osodwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Felly, nid ydynt yn bodloni gofynion eu statws ffafriol cadwriaethol, ac o bosib yn difrodi'r ecosystemau bregus a oedd yn sail i'w dynodiad fel Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae targedau o'r fath hefyd yn cael eu monitro ar gyfer maethynnau eraill yn Ardal Cadwraeth Arbennig Teifi a'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol ar hyd ein harfordir.

| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Maw | Meh | Medi | Rhag |
|---|---|---|---|---|---|
| R021T01: Sicrhau bod pob cais, cynllun a phrosiect yn cael ei sgrinio yn unol â chyfarwyddyd Cyfoeth Naturiol Cymru | 31 Maw 2023 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R021T02: Codi ymwybyddiaeth yn lleol ac yn genedlaethol a nodi ffyrdd i fireinio'r cyfarwyddyd | 31 Maw 2023 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R021T03: Gweithio ar lefel is-genedlaethol a chenedlaethol trwy'r gweithgorau i gael atebion | 31 Maw 2023 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R021T04: Ceisio atebion lleol, dysgu o arferion gorau mewn mannau eraill, defnyddio asedau sydd ym mherchnogaeth y Cyngor | 31 Maw 2023 | ● | ★ | ★ | ★ |
| R021T06: Penodi ymgeisydd i rôl swyddog rhaglen rhanbarthol y Bwrdd Rheoli Maethynnau | 31 Maw 2023 | | ● | ● | ★ |
| R021T07: Parhau i lobïo am ddull 'Tîm Cymru' o weithredu gan gynnwys rhestr liniaru genedlaethol a data | 31 Maw 2023 | | ● | ● | ★ |
| R021T08: Ystyried atebion lleol megis Cyfleusterau Trin Preifat a gweithio gyda Dŵr Cymru | 31 Maw 2023 | | ● | ● | ★ |

| Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma) |
| --- |
| Ers y diweddariad diwethaf, mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bwrdd Rheoli Maethynnau am 3 blynedd wedi'i gadarnhau, mae Rheolwr Rhaglen y Bwrdd Rheoli Maethynnau wedi'i benodi ac mae rôl swyddog cefnogi yn cael ei datblygu. Mae Cyfrifiannell Maethynnau a chanllawiau lliniaru yn cael eu paratoi ar gyfer Afon Teifi. Ochr yn ochr ag astudiaeth ddichonoldeb i safleoedd posibl ar gyfer gwlyptiroedd adeiledig ac astudiaeth ddichonoldeb cynllun masnachu credyd maethyn rhanbarthol. Mae'r prosiect Lliniaru a Lleihau Ffosffadau yn parhau i weithredu i gyflawni ystod o welliannau ffosffadau a arweinir gan y Tîm Ecoleg ac mae'r tîm Polisi yn parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru ar Gynllun Gweithredu Ffosffad 8 pwynt y Prif Weinidog a lobïo partneriaid mewn perthynas â gwelliannau ffosffadau yn Afon Teifi, sy'n cynnwys potensial technoleg stripio ffosffadau yn cael ei gosod yn Llanbedr Pont Steffan a Llanybydder cyn Cynllunio Rheoli Asedau 8 (2025). |

# Risg Gorfforaethol R022 Recriwtio a Chadw

## Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Geraint Edwards

**Disgrifiad**


Bydd methu â recriwtio staff i rolau allweddol yn cael effaith ar y gallu i gynnal gwasanaethau diogel ac effeithiol a'r gofyniad i fodloni cyfrifoldebau statudol a deddfwriaethol mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.


**Y Canlyniadau Posibl**

Gall effaith methu â recriwtio mewn modd amserol arwain at anallu i fodloni dyletswyddau statudol neu ofynion deddfwriaethol; anallu i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol; neu ei gwneud yn heriol i wasanaethau ymateb i alwadau sy'n newid. Byddai hyn yn arwain at ymyrraeth gan reoleiddwyr a/neu gael eu rhoi mewn mesurau arbennig, gan greu pwysau ychwanegol sylweddol ar y gyllideb a niweidio enw da'r Cyngor, a fyddai'n effeithio ymhellach ar frand ein cyflogwr a'n gallu i recriwtio. Yn ogystal, gallai methu â recriwtio arwain at effaith negyddol ar weddill y gweithlu o ganlyniad i orfod rhannu'r llwyth gwaith ychwanegol.

**Tystiolaeth o'r Risg**

Marchnad lafur heriol a welir yn y nifer uchel hanesyddol o swyddi gwag ledled y DU, y gyfradd isaf o ddiweithdra ers 1974 a'r cynnydd yn nifer y bobl economaidd anweithgar. Methiant i recriwtio mewn nifer o rolau proffesiynol er gwaethaf sawl ymgyrch. Mwy o ddefnydd o staff asiantaeth i gyflawni rolau allweddol â chymwysterau proffesiynol, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol ac uwch reolwyr.




| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Maw | Meh | Medi | Rhag |
|---|---|---|---|---|---|
| R022T01: Cyflogi asiantaeth recriwtio i recriwtio i rolau parhaol o ddomestig a rhyngwladol | 03 Chwe 2023 | | | | ★ |
| R022T02: Ymgymryd â meincnod cyflogau holl awdurdodau lleol Cymru | 31 Maw 2023 | | | | ● |
| R022T03: Adolygu'r ffurflen gais a'r broses | 30 Meh 2023 | | | | ● |
| R022T04: Ystyried cynllun prentisiaeth aml-lefel | 30 Meh 2023 | | | | ★ |
| R022T05: Parhau i lobïo dros raddfa gyflog Cymru gyfan ar gyfer gweithwyr cymdeithasol | 30 Medi 2023 | | | | ■ |

**Sylwadau (e.e. Cynnydd Hyd Yma)**

Yn dilyn proses gaffael mae asiantaeth recriwtio wedi'i phenodi i ddenu gweithwyr cymdeithasol cymwys o bob rhan o'r DU ac yn rhyngwladol i rolau parhaol.

Mae gweithdy Grŵp Arweiniol ynghylch archwilio mentrau newydd wedi'i gynnal ac mae'n canolbwyntio nawr ar werthuso'r mentrau unigol i'w hystyried ymhellach.